y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Darlith Flynyddol Cynllunwyr Iaith Cymru

Eisteddfod Genedlaethol Y Bala ~ Awst 6ed 2009

Deddfu, Iaith a Chynllunio

Colin H. Williams,
Ysgol Y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Fe ofynnwyd imi gynnig gorolwg dros y cyfnod rhwng 1993 a heddiw yn nhermau deddfu, yr iaith a chynlluniau iaith.[i] Rhennir fy sylwadau yn dri,

(i) yn gyntaf, effaith Deddf Iaith 1993 ar gynlluniau iaith;
(ii) yn ail, ystyriaethau deddfwriaethol presennol;
(iii) ac yn drydedd, yr opsiynau a all wedd newid ein fframwaith statudol a systemau rheoleiddio wrth hyrwyddo cynlluniau iaith a hawliau iaith.

Mae rhan gyntaf fy narlith yn canolbwyntio ar werthusiad o ddylanwad Deddf Iaith 1993 ac mae'n seiliedig i raddau ar waith maes a wnaethpwyd rhwng 2005 ac eleni.[ii]

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Y duedd yw meddwl am Ddeddf yr Iaith fel rhywbeth unigryw ac adeiladol, ond rhywbeth sydd wedi profi'n annigonol a diffygiol; rhywbeth a oedd efallai yn ateb rhai o ofynion y Llywodraeth nôl ym 1993, yn hytrach na gosod sylfeini cadarn ar gyfer polisi iaith ac anghenion siaradwyr y Gymraeg tuag at y dyfodol. Mae hynny yn sicr yn wir, a'r prif wendid wrth gwrs yw nad oedd ymrwymiad yn y Ddeddf i ddatblygu hawliau ieithyddol yr unigolyn, er i'r Bwrdd Ymgynghorol ar y pryd bwyso am hynny.

Prif arf statudol y Ddeddf oedd y Cynllun Iaith ac wrth i mi werthuso'r broses o gynllunio ieithyddol ystyriwyd y canlynol, sef:

- cwmpas Deddf(au) yr Iaith;
- dulliau arolygu cenedlaethol;
- gweithredu'r Cynllun Iaith;
- arolygu'r Cynllun Iaith;
- amrediad y gwasanaethau;
- a yw'r Cynlluniau Iaith yn gweithio?
- pa welliannau sydd eu hangen?

Wrth wneud yr ymchwil cynhaliwyd cyfres o ymweliadau â nifer a oedd naill ai yn gyfrifol am bolisi neu am weithredu'r cynllun iaith yn eu sefydliadau. Yn fras, gwelwyd mai dyma oedd y ffactorau allweddol a ddylanwadodd ar esblygiad y broses o weithredu'r Ddeddf:

- dyletswyddau statudol;
- gohebiaeth yn y Gymraeg;
- cyhoeddi ar y cyd nifer o ddogfennau cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- arolygu gan y Bwrdd;
- ymgynghoriad cyhoeddus wrth i'r Cynlluniau Iaith gael eu hadolygu;
- datblygiad rhwydwaith o Swyddogion Iaith;
- rhannu arfer da, hyfforddiant a phrofiad staff ymysg y rheini sydd yn gweithio oddi fewn i'r sector cyhoeddus ac mewn mentrau datblygu economaidd a chymunedol; swyddogion polisi cyrff cyhoeddus neu wirfoddol; staff Mentrau Iaith a staff asiantaethau diwylliannol.

Cyrff Cyhoeddus: Canlyniadau

Treuliwyd cryn dipyn o amser yn archwilio systemau rheoleiddio a phrosesau mewnol y Bwrdd drwy fod yn bresennol, gyda chaniatâd parod y Prif Weithredwr, yn yr uned reoleiddio. Dyma'r unig wir ffordd i ddeall y broses a dod i ddeall sut y mae cwynion yn cael eu hasesu, eu recordio a'u trin dros y tymor hir. Roedd yn allweddol hefyd dilyn sut roedd y Bwrdd yn ymwneud â gwahanol fathau o sefydliadau ac unigolion, ac asesu natur y berthynas rhyngddynt.

Ail ran y gwaith arsylwi a chyfweld oedd dehongli profiad gweithredu'r Ddeddf gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Gyhoeddus yng Nghymru a gan adrannau llywodraeth ganolog y Deyrnas Unedig.

Cynlluniau Iaith: mae yna dystiolaeth gref o gydymffurfiaeth fel rheol ond anghysondeb sylweddol hefyd o ran eu gweithredu.

Gwnaed wyth astudiaeth achos yng Nghymru, yn cynnwys pum awdurdod lleol

- Conwy;
- Gwynedd;
- Caerfyrddin;
- Caerffili;
- Caerdydd, a

thri chorff cyhoeddus

- Heddlu Gogledd Cymru;
- Bwrdd Iechyd Caerfyrddin;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro,

O blith rhain, gwelwyd mai Gwynedd yw'r enghraifft orau; mae'n gweithredu'n fewnol drwy'r Gymraeg, er enghraifft, yr holl femoranda a chyfathrebu mewnol yn Gymraeg, felly hefyd yr ohebiaeth â chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cyngor yn arddel polisi rhagweithiol sy'n mynd ymhell y tu hwnt i Ganllawiau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.Yn wir, teg dweud fod Gwynedd bron â bod yn unigryw yng Nghymru, ac yn fodel o'r hyn y gall awdurdodau eraill anelu at ei efelychu yn y dyfodol.

Gwasanaethau dwyieithog

Un o brif wendidau ein system bresennol yw'r diffyg ymrwymiad a gorfodaeth statudol yn ôl y Ddeddf i gynnig gwasanaeth, *"active offer"*, fel ag a geir yng Nghanada ac Iwerddon. Braf yw adrodd fod cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn norm yng Ngwynedd. Ond nid yw mor braf gorfod adrodd nad yw'r mwyafrif o'r cyrff eraill yn cynnig gwasanaethau tebyg. Anghyflawn ydynt gan amlaf, er bod hynny yn gwella, yn arbennig ers 2008. Mae'r system wedi esblygu ac wedi gwella yn rhannol oherwydd dylanwad a rôl arbennig *Rhwydiaith*, sef rhwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), yn arbennig felly yn y blynyddoedd cynnar, yn fwy nag heddiw efallai.

Mae'r rhwydwaith yma wedi'i sefydlu i alluogi pob un o awdurdodau lleol a sefydliadau gwladol Cymru i ddod at ei gilydd a thrafod materion strategol sy'n berthnasol i'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo dwyieithrwydd ym myd llywodraeth leol Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynorthwyo'r swyddogion iaith hefyd, gan ledaenu gwybodaeth ac arferion da a rhoi'r newyddion diweddaraf am y materion a'r mentrau perthnasol.

Erbyn hyn mae rôl y sector preifat oddi fewn i'r system wedi cynyddu. Cyfeirio yr ydwyf at weithgaredd yr asiantaethau ymgynghorol preifat a chyrff lobïo sydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaeth. Yr enghraifft orau yw IAITH cyf., sydd wedi tynnu cynllunwyr at ei gilydd i greu corff proffesiynol, yn cynnig hyfforddiant mewn swydd a chyrsiau gloywi iaith i godi hyder gweithwyr, ac yn gwneud gwaith gwerthuso ac ymchwilio i nifer o gyrff.

Un syndod oedd y canlyniad fod cwynion gan y cyhoedd yn llai allweddol nag a ddisgwyliwyd. Paham ?

Beth yw'r elfennau allweddol?

- **Arweiniad a rheolaeth** - ymrwymiad Uwch Reolwyr yn dylanwadu ar ymrwymiad y corff, (Gwynedd, Conwy, Heddlu Gogledd Cymru);
- Dull caeedig - heb ymgynghoriad agos rhwng y Bwrdd a staff mewnol y corff, mae peryg o lesgedd ac agwedd ynysig tuag at y Gymraeg (Cyngor Dinas Caerdydd).

- **Recriwtio a staffio** - Cynghorau Sirol a Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried sgiliau iaith wrth benodi;
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth iaith yn arbennig o dda yng Ngwynedd a HGC, yn weddol yn yr achosion eraill ond yn ddiffygiol yn achos Caerdydd tan yn ddiweddar.

- **Adnoddau** a phartneriaethau y Cynghorau Sir yn sicrhau ymrwymiad i'w Cynlluniau Iaith pan fyddant yn arwain partneriaethau;
- Tystiolaeth gref i ddangos, pan nad yw hynny'n digwydd, fod cynnydd yn nifer y rhai sydd yn cwyno am ddiffyg gwasanaeth. Aml dro ni chafwyd ateb boddhaol i'r cwynion.

- **Strategaethau gweithredu** - nifer o enghreifftiau arbennig o dda;
- Swyddogion iaith yn allweddol i'r gweithredu ond y ffactor amlycaf yw cefnogaeth ar y lefel uchaf;
- Amcanion y Cynlluniau Iaith yn cael eu llesteirio gan reolwyr canol (Caerffili), diffyg arfer/hyder staff a chwsmeriaid (Conwy, Caerdydd, Bwrdd Iechyd), a diffyg strategaethau i brif-ffrydio.

- **Prosesau, adolygu a gwerthuso** - archwiliadau gweddol gyson o natur y gwasanaethau;
- Monitro'r broses o gwyno yn bwydo'r broses o greu gwelliannau;
- Yr holl broses yn elwa o godi safonau arfer da wrth i'r cynlluniau gael eu cymeradwyo am yr ail neu'r trydydd tro.

- **Arolygu a dwyn achosion** - prosesau'r Bwrdd wrth ymateb a dilyn y cwynion yn arbennig o dda, yn broffesiynol iawn;
- Tystiolaeth gref fod y Bwrdd yn gydwybodol wrth fonitro ac ymwneud â chyrff cyhoeddus yng Nghymru;
- Ond llai effeithiol o lawer wrth ymdrin â Chyrff y Goron ac eraill sydd yn diystyru'r Bwrdd;
- Dim ond mewn ychydig o achosion mae'r Bwrdd wedi ystyried gofyn i'r Gweinidog ymyrryd yn y broses;
- Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae'r Bwrdd wedi bod yn llawer mwy cyhyrog wrth gynnal ymchwiliadau ffurfiol a defnyddio statws os nad pŵer uniongyrchol y Ddeddf i ddylanwadu ar ymddygiad a chydymffurfiad y sector cyhoeddus.

Adrannau Llywodraeth y DU

Astudiwyd darpariaeth gwasanaethau dwyieithog rhai o Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol gan gynnwys Y Swyddfa Gartref; Pensiynau, Gwaith a Chyflogaeth; Y Swyddfa Wybodaeth (COI) ymysg eraill yn Llundain a'u canghennau yn Llanisien, Caerdydd. Gwelwyd fod:

- Nifer ac amrediad y gwasanaethau dwyieithog yn arbennig o uchel;
- Swyddogion iaith a rheolwyr yn ymrwymedig iawn i'r Cynlluniau Iaith;
- Rhai o Weinidogion y DU yn gwrthod cydnabod eu dyletswyddau parthed Cynlluniau Iaith - methiant i gydymffurfio â chanllawiau'r Bwrdd;
- Cynlluniau Iaith heb eu gweithredu am nad oes staff addas;
- Anawsterau Technoleg Gwybodaeth a chydlynu;
- Diffyg cydweithrediad rhyngadrannol.

Ymchwiliadau Ffurfiol y Bwrdd

Ar y cychwyn cyntaf roedd y Bwrdd yn amharod iawn i gynnal ymchwiliadau ffurfiol am nifer o resymau gweddol amlwg:

(i) yn gyntaf, roedd y Bwrdd yn awyddus i'r system weithio ac o ganlyniad roedd hynny yn golygu fod angen amser ar staff yr awdurdodau lleol a'r sefydliadau i greu gwasanaethau effeithlon ac aeddfed;
(ii) yn ail, roedd diffyg 'capacity' mewnol y Bwrdd i gynnal ymchwiliadau yn ffactor;
(iii) ac yn drydedd, nid oedd yn gwbl glir o dan y Ddeddf beth yn union oedd pwerau'r Bwrdd a gwell oedd creu'r ddelwedd fod gan y Bwrdd lawer o rym na chael prawf yn gynnar iawn ac efallai darganfod nad oedd y corff statudol mor rymus ag a dybiwyd.

Yn ddiweddar, mae'r rhan yma o waith y Bwrdd wedi bod yn llawer mwy amlwg, ac yn y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, fe gafwyd ymchwiliadau ffurfiol yn achos:-

- 07/2008 Awdurdod Iechyd Conwy-Dinbych
- 09/2008 Gwasanaethau Llysoedd Ei Mawrhydi
- 09/2008 Cyngor Bwrdeistref Conwy
- 11/2008 Cyngor Sir Gaerfyrddin
- 01/2009 Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Orllewin Cymru
- 02/2009 Ymddiriedolaeth Iechyd Caerdydd a'r Fro
- 05/2009 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Gwerthusiad y Cynlluniau Iaith

Dyma rai o'r pwyntiau i'w nodi:

- Rôl allweddol y Bwrdd, perthynas aeddfed yn datblygu, rhannu profiad/syniadau, ond anodd yw profi i ba raddau mae pawb yn ymddiried yn y broses.
- Beirniadaeth gan rai nad yw'r Bwrdd yn rheoleiddio'r broses yn fwy llym, a hynny yn cael ei weld fel esgus gan y gwannaf dros beidio ag ymrwymo i'w tasg.
- Cyrff blaengar fel Heddlu Gogledd Cymru yn codi disgwyliadau'r cyhoedd ac yn pwyso oddi fewn i'r system e.e. ar y Swyddfa Gartref i wella ei darpariaeth dros Gymru gyfan.
- Hyblygrwydd y Cynlluniau Iaith yn dangos aeddfedrwydd ond erys pryderon y gall hynny arwain at hunan fodlonrwydd.
- Mae angen dyfnhau a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae hynny yn fwy o sialens o lawer na chynnig hyfforddiant mewn swydd i'r rhai sydd yn cynnig y gwasanaeth, am fod cynifer o ffactorau ynghlwm wrth y broses. Un peth amlwg a ddywedir yn aml yw nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael yn cael eu defnyddio, ond mae hynny yn weddol amlwg os nad yw'r cyhoedd yn teimlo fod y rhai sydd wrthi yn darparu gwasanaethau yn gwbl hapus a chyfforddus wrth drin ceisiadau yn y Gymraeg. Mae'n naturiol o dan amgylchiadau lle y tybir fod yna batina tenau o ddwyieithrwydd i droi at y Saesneg i barhau'r berthynas. Ofer ydy beio'r cwsmer am ddiffygion y gwasanaeth.

A ydy'r Ddeddf yn effeithiol?

Gellir dadlau fod:

- Y sylfaen statudol wedi gwella ein gwasanaethau dwyieithog;
- Ond mae amharodrwydd Cyrff y Goron a rhai asiantaethau i gydymffurfio yn wendid amlwg;
- Mae diffyg hawliau i'r unigolyn yn wendid sylfaenol erbyn heddiw;
- Ac mae angen mwy nag un ddeddf iaith newydd am fod natur y farchnad wedi newid; mae angen rhaglen o ddeddfwriaeth benodol.

Casgliadau dros dro

- Mae gwasanaethau dwyieithog wedi gwella'n arw.
- Mae diffyg cysondeb ac ansawdd yn ein rhwystro rhag derbyn gwasanaethau teg.
- Mae angen mwy o bwyslais nawr ar y lleol oddi fewn i fframwaith cenedlaethol cryf.
- Mae angen codi safon ac ansawdd y gwasanaethau.
- Y cwestiwn allweddol yw sut y rhennir y dyletswyddau *hyrwyddo* a *rheoleiddio* yn y systemau newydd?

Ystyriaethau Deddfwriaethol Presennol

Mae pedair ystyriaeth:

(i) Dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
(ii) Sefydlu swydd Comisiynydd Iaith;
(iii) Manyleb o hawliau iaith;
(iv) Ymestyn Cynlluniau Iaith i rannau o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Yr Opsiynau Presennol

- Cadw Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel asiantaeth ar gyfer polisi a chynllunio ieithyddol.
- Ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg o fewn gweithrediad y Cynulliad.
- Sefydlu swydd Comisiynydd Iaith.
- Sefydlu Comisiwn i'r Iaith Gymraeg, gan ymgorffori'r Bwrdd *yn llwyr*, yn cynnwys yr elfennau hyrwyddo a rheoliadol ar bolisi a chynllunio ieithyddol, yn cynnwys Comisiynydd, ond gyda phwerau a chyfrifoldebau a bennwyd gan ddeddfwriaeth newydd.

Mae hyn oll, hyd yma, yn sôn am broses ac am systemau o weithredu'r ddeddfwriaeth, ond beth yw rôl y dinesydd a chymdeithas sifil wrth ddylanwadu ar bolisi, adnabod anghenion a chwyno?

Cystadleuwyr a phosibiliadau tebygol os daw'r Bwrdd i ben

Un ffordd ymlaen yw troi'r Bwrdd presennol yn fwy o asiant rheoleiddio a fyddai yn dehongli a hyrwyddo hawliau ieithyddol ac yn cynnig cartref i'r Comisiynydd Iaith newydd. Felly, wrth feddwl am Fwrdd llai o faint ond un a fedr ganolbwyntio ar rai dyletswyddau yn unig parthed y Gymraeg, sut y byddai rhywun yn gwahanu dyletswyddau presennol y Bwrdd?

Dyma un ymgais i wneud hynny, sef:

- Trosglwyddo'r swyddogaethau hyrwyddo a pholisi i Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Rheoleiddio a Materion Statudol, Hawliau a Chynlluniau Iaith, y Sector Preifat a Chanolfan Derminoleg i'w lleoli yn Swyddfa Comisiwn yr Iaith Gymraeg.

Cryfder y fath drefn fyddai cadw cysondeb a phrofiad nifer o elfennau presennol y Bwrdd sydd yn delio â chynlluniau iaith, sefydliadau cyhoeddus a'r weinyddiaeth. Gwendid, neu beryg, y fath raniad fyddai ymrwymiad unrhyw Lywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg yn ei chrynswth, fel mater o bolisi, ac nid darnio elfennau presennol y Bwrdd i bob cyfeiriad o dan y *mantra* o brif lifo'r iaith ymhob adran.

Nid hwn, wrth gwrs, yw'r unig opsiwn.

Tri dewis amgen

- Mae'n werth ystyried trefniadau presennol **Ofcom** lle mae'r elfennau hyrwyddo a rheoleiddio yn gorwedd yn yr un corff. Mae hwn yn gynsail ar gyfer yr hyn a all ddigwydd oddi fewn i Gomisiwn Iaith newydd, a allai gynnwys adran sydd yn hyrwyddo hawliau ac adran sydd yn rheoleiddio a chosbi os oes angen.

- **Comisiwn Cwynion Heddlu'r Iwerddon**, sef tribiwnlys o dri sydd yn cwrdd yn rheolaidd i wrando ar achosion ac i gynnal ymchwiliadau. Mantais y fath yma o opsiwn i ni yng Nghymru fyddai'r gost, y ffaith y byddai'r tribiwnlys yn cwrdd yn rheolaidd ond yn ymyrryd dim ond pan fo ymchwiliadau difrifol i'w cynnal, a'r ffaith na fyddai holl beirianwaith sefydlu Comisiynydd Iaith newydd yn gorfod dibynnu ar bersonoliaeth ac awydd neu ymrwymiad unigryw y Comisiynydd cyntaf. Er nad yw hynny yn cael llawer o sylw, mae'n fater tyngedfennol, oherwydd i raddau helaeth mae natur y swydd yn mynd i ddibynnu gryn dipyn ar allu'r person a apwyntiwyd iddi. Mae'n dilyn y bydd y person yn gorfod datblygu steil o weithio, ac efallai ehangu gorwelion hawliau sefydliadol ac unigol siaradwyr yr iaith. Gall hynny fod yn risg, ac un opsiwn i leihau'r risg o dan gyflawni neu or ymestyn dyletswyddau'r swydd fyddai trwy sefydlu tribiwnlys yn y lle cyntaf. Yna, unwaith y byddai'r system yn ymsefydlu, gellid newid y fframwaith wrth apwyntio unigolyn efallai mewn pum mlynedd.

- **Comisiynydd Gwybodaeth Cymru**
  Mae Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Cymru yn gyfrifol am:
  - ddarparu gwasanaeth cynghori a delio ag ymholiadau cyffredinol gan unigolion, sefydliadau ac awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u lleoli yng Nghymru;
  - ymchwilio i bob cwyn o ran rhyddid gwybodaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus Cymru;
  - codi ymwybyddiaeth leol am hawliau gwybodaeth ac annog arfer da;
  - ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a gwneuthurwyr polisi allweddol eraill i sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth newydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a reoleiddir gennym;
  - sicrhau bod buddiannau unigolion, sefydliadau ac awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
  - ymateb i anghenion lleol drwy ddarparu gwasanaeth priodol a dargedwyd (mae hynny yn cynnwys darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg).

Mae hyn wrth gwrs yn awgrymu math o weithio sydd yn bennaf oll yn ymwneud â'r weinyddiaeth ac fe all hynny fod yn opsiwn ceidwadol iawn ar y cyntaf. Ond mae'n werth ei ystyried os nad ydym yn gwbl sicr beth fydd ein hawliau ieithyddol am gyfnod gweddol hir. Y peth gwaethaf fyddai diffinio ein hawliau ieithyddol ar bapur fel mater o bolisi - yr hawl ddiamod i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft - a ffeindio wedyn fod y Llysoedd yn gwrthod yr hawl ddiamod unwaith y

byddai achos arbennig yn dwyn sylw at anymarferoldeb gweithredu'r hawl mewn rhai cyd-destunau.

Dylanwad cronnus

- Peidied neb ag anghofio dylanwad Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, effaith y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl, a goblygiadau ymestyn y gyfraith ym maes gwahaniaethu i gynnwys yr iaith. Mae cryn dipyn o bwysau ymysg rhai pleidiau gwleidyddol i beidio â rhoi ffocws ar y Gymraeg drwy sefydlu Comisiynydd Iaith. Yn hytrach, fe awgrymir mai Comisiynydd Ieithoedd a ddylid ei sefydlu, neu y dylid cynnwys yr iaith fel elfen oddi fewn i Gomisiwn Cydraddoldeb. Ar un wedd mae hon yn edrych yn opsiwn apelgar wrth i'r Gymraeg gael ei hystyried yn elfen arwyddocaol. Ond peryg hyn oll, wrth gwrs, yw y bydd yr iaith yn ennyn sylw mewn argyfwng yn unig ac fe fydd y gwaith beunyddiol o hyrwyddo hawliau ieithyddol ac ymwneud â'r cyrff yn cael llai o sylw.
- Cyrff y Goron i lunio cynlluniau iaith - Byddai hwn yn gam allweddol ymlaen. Ac er nad yw'n ffasiynol dweud hynny yn y Gymru gyfoes, rydw i o'r farn fod yr elfen Brydeinig yn holl bwysig i ni fel siaradwyr, yn enwedig wrth drin y gyfraith a chofio am effaith hir dymor Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ein bywydau bob dydd.
- Ymgais Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau mwy o bwerau i ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Byddai hynny yn effeithio ar ganfyddiad y Bwrdd wrth iddo droi ei hun, neu gael ei newid gan ddeddfwriaeth, i fod yn Gomisiwn gyda llawer o brofiad ac ychydig mwy o ddannedd wrth gynnal ymchwiliadau a rheoleiddio'r broses o gydymffurfiaeth.

Cynseiliau Rhyngwladol

Yng Nghymru y dylai'r penderfyniadau am yr iaith gael eu gwneud ond peidied neb ag anwybyddu'r tueddiadau Ewropeaidd a rhyngwladol. Fe fyddant yn fwy ac yn fwy pwysig. Mae'n dilyn felly bod cynnydd yn y gydnabyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg yn y DU ac Ewrop yn effeithio arnom. Mae profiad archwiliad trydedd rownd Siarter Ewrop ar Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol, y tebygrwydd y bydd Cytundeb Lisbon yn llwyddo yn ystod y ddwy flynedd nesaf, a gweithgaredd NPLD (Rhwydwaith Amrywiaeth Ieithyddol) oll yn awgrymu y bydd iaith fel ffactor yn derbyn llawer mwy o sylw yn ystod y cyfnod nesaf yn ein hanes. Mae profiad gwledydd eraill yn arbennig o bwysig ac fe nodir isod y cynseiliau rhyngwladol yr wyf i yn dibynnu arnynt wrth archwilio'r broses o reoleiddio iaith:-

- Ffederasiwn Canada: Swyddfa Comisiynydd yr Ieithoedd Swyddogol
- Talaith Ontario: Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Ffrangeg
- Iwerddon: An Coimisinéir Teanga
- Y Ffindir: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Fersiynau Catalunya a Gwlad y Basg

Yn y tymor canol, arweiniad y Cynulliad fydd yn dylanwadu'n bennaf ar ein gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd newydd. Ond rwy'n disgwyl i'r llysoedd fod yn elfen gryfach o lawer wrth i'r gyfraith ddiffinio beth yn union fydd ein hawliau ieithyddol ar 'lyfr statud', ar lawr ffatri neu yn y swyddfa, ac yn y maes addysg yng Nghymru. Mae dyddiau difyr iawn o'n blaenau ac erbyn diwedd 2010 rwy'n disgwyl y bydd cyfnod newydd yn ein hanes fel cenedl wedi ei sefydlu. Ond wrth feddwl am yr hyn a all ddod i rym o ran deddfwriaeth a pholisi iaith, ni ddylid lleihau ein hymrwymiad i'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg nac anwybyddu pa mor ganolog yw'r gwaith beunyddiol a wneir dros y Gymraeg. Un cam ymysg eraill yw sefydlu Comisiynydd Iaith.

---

[i] Rwy'n hynod o ddiolchgar i Gwmni Iaith am eu gwahoddiad i ddarlithio yn Y Bala. Noddwyd y rhan o'r gwaith ymchwil ar Gynlluniau Iaith gan brosiect 'From Act to Action' a gydlynwyd gan Siv Sandberg, Prifysgol Abo, Y Ffindir a'r rhan arall ar Gomisiynwyr Iaith gan nawdd Yr Academi Brydeinig.

[ii] Enw'r prosiect yw 'O Ddeddf i Weithred'. Fi oedd cyfarwyddwr y prosiect yng Nghymru ac rwyf yn ddyledus iawn i Dr D.Mac Giolla Chriost, Steve Eaves ac Ifor Gruffudd am eu cymorth wrth rannu'r dasg o gasglu data a chynnal cyfweliadau dwys.

Cyhoeddwyd gan **IAITH: y ganolfan cynllunio iaith**, Awst 2010
Unedau 2-4, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd Emlyn, SA38 9DB
www.iaith.eu 01239 711668
Rhif cwmni: 2803324 Rhif elusen gofrestredig: 1130052